Effesiaid 4:11-16 (beibl.net)

A dyma'i roddion: mae wedi penodi rhai i fod yn gynrychiolwyr personol iddo, eraill i fod yn broffwydi, eraill yn rhai sy'n rhannu'r newyddion da, ac eraill yn fugeiliaid ac athrawon. Maen nhw i alluogi pobl Dduw i gyd i'w wasanaethu mewn gwahanol ffyrdd, er mwyn gweld corff y Meseia, sef yr eglwys, yn tyfu'n gryf. Y nod ydy ein bod ni'n ymddiried ym Mab Duw gyda'n gilydd ac yn dod i'w nabod yn well. Bryd hynny bydd yr eglwys fel oedolyn aeddfed yn adlewyrchu beth welwn ni yn y Meseia ei hun. Dim plantos bach fyddwn ni, yn cael ein taflu yn ôl ac ymlaen gan y tonnau, a'n chwythu yma ac acw gan bob awel sy'n dod heibio. Fyddwn ni ddim yn newid ein meddyliau bob tro mae rhywun yn dweud rhywbeth newydd, neu'n cael ein twyllo gan bobl slei sy'n gwneud i gelwydd swnio fel petai'n wir. Na, wrth gyhoeddi beth sy'n wir mewn cariad, byddwn ni'n tyfu'n debycach bob dydd i'r Pen, sef y Meseia. Y pen sy'n gwneud i'r corff weithio a thyfu. Fel mae pob rhan o'r corff wedi'i weu i'w gilydd, a'r gewynnau'n dal y cwbl gyda'i gilydd, mae'r eglwys yn tyfu ac yn cryfhau mewn cariad wrth i bob rhan wneud ei gwaith.

Myfyrdod

Yn y bedwaredd bennod o'r Llythyr at yr Effesiaid y mae Paul yn amlinellu'r gwahanol swyddogaethau oedd yn yr Eglwys yn ei gyfnod ef. Yn amlwg, nid oedd pawb yn gwneud yr un peth ond yr oedd pawb, er hynny, yn gwasanaethu Crist yn ôl eu gallu a'u doniau.

I wneud hynny'n llwyddiannus, meddai Paul, roedd angen ffydd ac ymddiriedaeth a golygai hynny fod y Cristnogion yn tyfu ac yn aeddfedu. Meddai;

'Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.'

Neu yn ôl beibl.net;

‘Bryd hynny bydd yr eglwys fel oedolyn aeddfed yn adlewyrchu beth welwn ni yn y Meseia ei hun.’

Bod yn debyg i Grist oedd y nod, a golygai hynny gadernid barn a doethineb, a’r parodrwydd i gyhoeddi’r efengyl mewn cariad, a chydweithio. Y gyfrinach oedd dal cyswllt â Christ, ac ystyr hynny oedd ymroi yn llwyr i’w gariad a bod yn gwbl ffyddlon iddo.

Y mae gan bawb waith i’w wneud yn yr Eglwys o hyd, a gall pawb ohonom wneud rhywbeth. Wrth weithio yr ydym yn tyfu mewn profiad, a bydd y profiadau a gawn yn porthi ein ffydd ac yn mynnu ein bod weithiau yn meddwl yn ddyfnach am yr hyn a gredwn.

Cyfrifoldeb pob aelod o’r Eglwys yw meddwl o ddifrif am yr hyn y gallant ei gyflawni a’r hyn y dichon fod Duw yn gofyn iddynt ei wneud.

Wrth ffarwelio ag Owain fydd yn cychwyn ar ei weinidogaeth yng Ngofalaeth Fro Nant Conwy ym mis Medi, dymunwn yn dda iddo gan ddiolch am yr hwyl a’r cydweithio hapus fu rhyngom. Bu iddo ef a ninnau dyfu ac aeddfedu yn y ffydd drwy’r profiad hwnnw, a bu ei ymroddiad a’i benderfyniad i ymateb i’r alwad a deimlai i wasanaethu fel gweinidog yn ysbrydoliaeth inni. Tybed a oes yna rywun arall yn yr ofalaeth sy’n teimlo fod Duw yn eu galw hwythau ar hyd llwybr tebyg? Os oes, peidiwch â bod yn swil o fynegi hynny.

Gweddi

Ein Tad, yr wyt ti yn galw pobl i’th ddilyn

ac yn rhoi’r gallu iddynt i gyflawni dy waith,

gan ein creu yn un teulu o fewn dy Eglwys.

Dyro i ninnau glywed dy alwad yn fwy eglur

a gweld y cyfleoedd i wasanaethu a roddi di inni.

Boed inni ddysgu ac aeddfedu

drwy rannu profiad a gorchwyl,
a darganfod y llwybr yr wyt yn ein cyfeirio iddo.

Diolchwn am dy Eglwys ar hyd a lled y ddaear
a gweddïwn y bydd i'w chenhadaeth lwyddo
a'i gwaith fynd ar gynnydd.
Cyflwynwn i ti'r cynulleidfaoedd y gwyddom yn dda amdanynt
ac erfyniwn am dy fendith arnynt,
fel y bydd i'w tystiolaeth fod yn effeithiol
a'i bywyd yn adlewyrchiad o'th gariad.

Gweddïwn dros eglwysi'r ofalaeth hon
a phawb a berthyn iddi,
yn enwedig y rhai sy'n llesg neu'n wael,
y teuluoedd sydd mewn profedigaeth,
a'r aelodau sydd mewn ysbytai a chartrefi.
Bugeilia bob aelwyd,
a thrwy dy Ysbryd Glân
ymestyn y tu hwnt i'n cyrraedd ni
i ddwyn cysur a gobaith,
ffydd ac adnewyddiad.
Hyn a ofynnwn yn enw ac yn haeddiant
ein Harglwydd, Iesu Grist. Amen.

Emyn (844 C.Ff.)

Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd,
a deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd;
na foed neb heb wybod am gariad y groes,
a brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

Sancteiddier y ddaear gan Ysbryd y ne';
boed Iesu yn Frenin, a neb ond efe:
y tywysogaethau mewn hedd wrth ei draed
a phawb yn ddiogel dan arwydd ei waed.

Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr,
a doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
fel na byddo mwyach na dial na phoen
na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.

EIFION WYN, 1867-1926

https://www.youtube.com/watch?v=kJ_qVF-0kjQ

Y Parchg Wynne Roberts

Geiriau Eifion Wyn – 'Efengyl Tangnefedd'

Ton: 'How's the World Treating You'.

Y Fendith

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, fyddo gyda ni oll. Amen.